# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 4 - Tŷ Hywel**
Dyddiad: Dydd Mercher, 19 Hydref 2016
Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
**Bethan Davies**
Clerc y Pwyllgor
0300 200 6372
SeneddCyllid@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Papur(au) i'w nodi

## 3 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2017-18: Sesiwn dystiolaeth 1

(09.00-10.30) (Tudalennau 1 - 31)

Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Margaret Davies, Dirprwy Gyfarwyddwr - Cyllidebu Strategol, Llywodraeth Cymru
Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr - Trysorlys, Llywodraeth Cymru

Papur 1 - Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad
Papur 2 - Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau - 3 Awst 2016 - Deiseb P-04-660 Y Pwysau Ychwanegol ar Gyllid i Ddarpariaeth Addysg sy'n Wynebu Ardaloedd Gwledig Prin eu Poblogaeth

## 10.30-10.45 - Egwyl

## 5 Y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru): Sesiwn anffurfiol

(10.45-12.30)

Lakshmi Narain, Cynghorwr Technegol
Philip Davies, Drafftiwr Deddfwriaethol Ymgynghorol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Eitem 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Deisebau

**National Assembly for Wales**
Petitions Committee

Simon Thomas AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

3 Awst 2016

Annwyl Simon

**Deiseb P-04-660 Y Pwysau Ychwanegol sy'n Wynebu Ardaloedd Gwledig Prin eu Poblogaeth o ran Darpariaeth Addysgol**

Cafodd y ddeiseb ganlynol, a gafodd 1,049 o lofnodion, ei chyflwyno gan 'Achub Ysgolion Powys' yn y Cynulliad diwethaf.

> *Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Lywodraeth Cymru i gydnabod yr heriau ariannol o ddarparu lefel briodol o ddarpariaeth addysgol mewn ardaloedd gwledig prin eu poblogaeth. Mae toriadau mewn gwariant yn cael effaith niweidiol ar gymunedau ysgolion, i'r graddau bod plant yn gadael eu sir breswyl (ac yn gynyddol, yn siroedd y gororau fel Powys, yn gadael Cymru) er mwyn parhau â'u haddysg. Mae ysgolion a'r chweched dosbarth ar fin cyrraedd pen eu tennyn, wedi'u llethu gan y bygythiad parhaus i gau. Mae ein plant yn cael eu gorfodi i deithio pellteroedd anghynaladwy ar is-ffyrdd, gan chwalu grwpiau o ffrindiau ac ychwanegu hyd at ddwy awr at y diwrnod ysgol. Mae addysg feithrin bellach dan fygythiad hefyd. Gyda thoriadau parhaus i gyllidebau ysgolion, sy'n achosi diswyddiadau dro ar ôl tro, mae'n amhosibl darparu addysg o'r ansawdd y mae athrawon wedi'u hyfforddi i'w darparu, ac y mae ein pobl ifanc yn ei haeddu. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ymchwilio ar unwaith i'r heriau ychwanegol i addysg mewn ardaloedd gwledig prin eu poblogaeth, ac i gynyddu'r cyllid i ardaloedd fel Powys yn unol â hynny. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ymchwilio ar unwaith i'r heriau ychwanegol i addysg mewn ardaloedd gwledig prin eu poblogaeth, ac i gynyddu'r cyllid i ardaloedd fel Powys yn unol â hynny. Os yw Cymru ddatganoledig am ffynnu, mae angen i'n Llywodraeth arwain y trafodaethau ar ariannu yn San Steffan. Mae angen i chi fod ar ein hochr ni!*

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddDeisebau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPetitions@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Ystyriodd y Pwyllgor Deisebau y ddeiseb yn ein cyfarfod ar 12 Gorffennaf pan gytunwyd i gau'r ddeiseb. Fodd bynnag, wrth wneud hynny, cytunodd y Pwyllgor y dylwn i ysgrifennu atoch fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid fel y gallai'r materion a godwyd gan y ddeiseb gael eu hystyried wrth i chi drafod y cylch cyllideb nesaf.

Yr wyf yn ysgrifennu mewn termau eithaf tebyg at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams AC, ac at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, Mark Drakeford AC.

Yn gywir



Mike Hedges AC
**Cadeirydd**

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon